Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

SWYDDOGOL OFFICIAL

# PROFFIL Y RÔL

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi |
| **Gradd:** | 6/SO1 |
| **Yn atebol i:** | Uwch-swyddog Polisi |
| **Yn gyfrifol am:** | Dd/G |
| **Cydgysylltu â:** | Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, y Cyhoedd, Sefydliadau Allanol, Asiantaethau a Phartneriaethau, Aelodau Seneddol a Llywodraeth Cymru |
| **Lefel Fetio Ofynnol:** | MV/SC – Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | Medi 2025 |

| | |
|---|---|
| **Diben y Rôl** | Gweithio ochr yn ochr â Swyddog Polisi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Cynllun Lles Anifeiliaid drwy oruchwylio'r broses o recriwtio, cydgysylltu a hyfforddi gwirfoddolwyr gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol i ddatrys pryderon, uwchgyfeirio materion, cynnal safonau uchel a gwella gwasanaethau.<br><br>Cefnogi blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gwneud gwaith ymchwil, ymgymryd ag ymgynghoriadau, a chasglu a dadansoddi data er mwyn helpu i wneud penderfyniadau, datblygu polisïau a'u rhoi ar waith a chynnal prosiectau.<br><br>Cefnogi, cynghori a chydweithio er mwyn cyfrannu at amcanion a nodau Prosiectau a Pholisïau ym mhob mater mewn yn ymwneud â pholisi, cynllunio strategol, cynnal prosiectau a pherfformiad. Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Troseddau a Chyfiawnder Heddlu De Cymru yn barhaus.<br><br>Byddwch hefyd yn gwerthuso cynigion polisïau, yn cynghori ar faterion fel buddiannau, risgiau a goblygiadau posibl, gan gynnwys yr angen i asesu effaith penderfyniadau polisi a sut gall newidiadau gael eu cyfathrebu â'r gymuned ehangach.<br><br>Bydd angen hyblygrwydd, gan y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio gyda'r nos o bryd i'w gilydd er mwyn cefnogi cyfarfodydd panel a dyletswyddau cysylltiedig. |
| **Prif Gyfrifoldebau** | • Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Bydd hyn yn cynnwys cynnal rhwydweithiau effeithiol gyda rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Heddlu De Cymru, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a rheolwyr y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd o fewn Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill yng Nghymru a Lloegr<br>• Helpu gyda'r gwaith o ddatblygu a rhoi amrywiaeth eang o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ar waith.<br>• Rhoi cyngor i uwch-reolwyr a chydweithwyr yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ar agweddau yn ymwneud â chynllunio strategol a pherfformiad<br>• Helpu i gynnal paneli craffu drwy gynnig swyddogaeth gydgysylltu broffesiynol, monitro camau dilynol ac olrhain cynnydd argymhellion<br>• Cyfrannu at y gwaith o roi proses cynllunio busnes a fframwaith rheoli perfformiad SCHTh ar waith.<br>• Monitro a diweddaru cynllun busnes SCHTh |

| | |
|---|---|
| | • Meithrin cydberthnasau ag asiantaethau o isranbarthau a rhanbarthau allweddol a rhanddeiliaid strategol eraill wrth gynllunio a chyflwyno prosiectau adfywio mawr.<br>• Cyfrannu at y gwaith o baratoi, monitro ac adolygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu.<br>• Helpu i roi systemau, arferion, prosesau a gweithdrefnau effeithiol ar waith mewn perthynas â chynllunio strategol a pherfformiad<br>• Dadansoddi'r amgylchedd mewnol ac allanol i nodi materion a fydd yn effeithio ar y broses o gyflawni blaenoriaethau'r comisiynydd<br>• Cynnal gwaith ymchwil a dadansoddi setiau data yn ymwneud â chymunedau yn Ne Cymru i ddarparu proffiliau demograffig-gymdeithasol i dargedu gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn well<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ymchwil a chymorth dadansoddol<br>• Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, polisïau, deddfwriaeth ac arferion gorau er enghraifft Cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Weithredwr i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo rôl y CHTh ag arweinwyr gwleidyddol a gwneuthurwyr penderfyniadau ledled De Cymru<br>• Meithrin, cynnal a rheoli cydberthnasau dylanwadol effeithiol ag amrywiaeth eang o gydweithwyr mewn sefydliadau eraill yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol<br>• Sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith ar gyfer rheoli gwybodaeth i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol<br>• Cynrychioli'r CHTh a'r tîm rheoli gweithredol a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd/cynadleddau/digwyddiadau amlasiantaeth<br>• Cefnogi'r broses o cyflawni prosiectau ad hoc sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r CHTh<br>• Helpu i ddatblygu rhaglenni a phrosiectau a mentrau a sicrhau y caiff yr allbynnau a'r canlyniadau gofynnol eu cyflawni<br>• Cefnogi'r broses o roi rhaglenni newid ar waith<br>• Cymryd cyfrifoldeb personol am ddatblygiad personol a phroffesiynol a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau eich hun mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd SCHTh<br>• Gweithio'n agos gyda chydweithwyr eraill i wella arferion ac effeithiolrwydd gweithredol<br>• Cyfrannu at ddatblygiad parhaus a chydymffurfio â fframwaith SCHTh De Cymru i reoli gwybodaeth i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol er mwyn llywio polisïau ac arferion SCHTh (yn arbennig mewn perthynas â chynllunio strategol a pherfformiad)<br>• Datblygu, cynhyrchu a chyflwyno papurau briffio, adroddiadau, taenlenni a chyflwyniadau<br>• Hyrwyddo amrywiaeth a gwrth hiliaeth, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau a materion yn ystyried prosesau i integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn briodol<br>• Trin a rheoli gwybodaeth gyfrinachol â disgresiwn, gan sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei diogelu yn briodol, yn unol â gofynion diogelu data.<br>• Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gyson â natur, cyfrifoldebau a gradd y swydd. |
| **Cymwysterau a Phrofiad** | **Hanfodol**<br>• CMI Lefel 3 Rheoli Prosiect neu brofiad cyfatebol neu deg<br><br>**Dymunol** |

